Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 21ain o Dachwedd 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd Cyng C W Owen (IsGadeirydd) Cyng L A James; Cyng J Pierce: Cyng D Jones-Morris; Cyng J Griffiths; Cyng E Roberts; Cyng B. Jones; Cyng A Joyce; George Owen; Megan Jones; Cynghorydd Sir Dafydd Meurig; Cyfieithydd o Awen Menai a'r Clerc
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Jên Dafydd wahoddwyd ar gyfer ei chyfethol
3. **Cyfethol / Co-opt**
   Cyn cychwyn ar y broses swyddogol i gyfethol cyhuddodd y Cyng A Joyce y Cyngor o gam-weinyddu a'i fod wedi bod yn disgwyl gweld 6 person yn bresennol a/neu eu manylion ar gael. Sicrhawyd y Cynghorydd fod y Cyngor wedi dilyn y broses gywir drwy hysbysebu y seddi gweigion ar y wefan am 14 diwrnod rhagofn byddai 10 o etholwyr wedi cysylltu a Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd i ofyn am etholiad ag yn dilyn hynny gwahodd unigolion i ddatgan diddordeb.
   'Roedd 6 enw wedi eu anfon at y Clerc a sefydlwyd panel i gael sgwrs anffurfiol hefo'r 6 ag anfon amser iddynt gyfarfod y panel Nos Fercher 13eg o Dachwedd. Dangoswyd y rhestr enwau a'i amseroedd
   Ar y 13eg 4 unigolyn ymddangosodd gan fod 1 wedi datgan ymlaen llaw iddi ail-feddwl ac ni ymddangosodd un unigolyn
   Bu i'r panel ddod i benderfyniad ag i'r Clerc wahodd 3 i fynychu cyfarfod heno i'w cyfethol yn swyddogol ac i ddiolch i'r 4ydd am ddatgan ei ddiddordeb. Mi oedd dau yn bresennol heno ag un wedi ymddiheuro ei bod yng Nghaerdydd ag yn methu bod yn bresennol
   Cynnigiodd Cyng L A James bod y Cyngor yn cyfethol Megan Jones a Jên Dafydd yn gynghorwyr cymuned dros Ward Glasinfryn Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng J Pierce
   **Pleidleisiod 8 o blaid ag un yn atal**
   Cynnigion y Cyng D Jones-Morris bod y Cyngor yn cyfethol George Owen yn Gynghorydd Cymuned dros ward Faenol. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng B Jones
   **Pleidleisiod 8 o blaid ag un yn atal**
   **Croesawodd y Cadeirydd y 2 Gynghorydd newydd i'r Cyngor**

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng L A James a'r Cyng A Joyce yn datgan eu bod yn ymddiriedolwyr Canolfan Penrhosgarnedd
   **Gan fod Cynghorydd Dafydd Meurig yn awyddus i fynychu cyfarfod arall gofynnodd y Cadeirydd am ganiatad i newid y ddau eitem nesaf rownd seff trafod eitem 6 a wedyn eitem 5**

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 10fed o Hydref / October 2024**
   Derbynwyd fal Cofnodio cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng C W Owen
6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   **Diweddariad o'r datblygiad yn Caerhun / Update on development at Caerhun**
   Yn dilyn derbyn gair o groeso gan y Cadeirydd adroddodd y Cynghorydd Sir ei anfodlonrwydd yntau ynglyn a'r datblygiad sydd wedi digwydd ar y lleoliad yma. Serch hynny oherwydd ei gefndir fel cyn-

aelod Cabinet a chyfrifoldeb dros Amgylchedd 'roedd yn ymwybodol fod materion o'r fath yn cymeryd misoedd lawer i'w datrys

Ychwanegodd mae nid mater o weithredu yn syth ydi mater gorfodaeth ond cychwyn trafodaethau a bod rhaid gadael cyfle i'r ddwy ochr ymateb.

Byddai yn parhau i ddwyn perswad ar yr adran gorfodaeth a deuai yn ol gyda unrhyw ddiweddariad

Diolchwyd iddo am ddod draw i'r Cyngor

**Gadawodd y Cynghorydd Sir i fynychu cyfarfod arall**

**Cyn symyd ymlaen ymhellach datgelodd y Cadeirydd ei anfodlonrwydd a'i siom am y ffordd oedd y Cyng A Joyce wedi ymddwyn o flaen dieithriaid. 2 Oedd bellach wedi eu cyfethol i fod yn gwasanaethu ar y Cyngor**

**Materion eraill yn codi**

Dim diweddaraiad wedi ei dderbyn gan y Swyddog Trafnidiaeth yn dilyn ei ymweliad atom ond y cwynion ynglyn a'r llwybr lleisiant yn parhau

Ymgynghoriad Cylchfan Allt Faenol – gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad onibai ei fod uwchlaw lefel y lon fel sydd ar yr A55 oherwydd fod nifer uchel o gerddwyr a beicwyr yn defnyddio y groesfan a traffig trwm ar y ffordd o sawl cyfeiriad ar y gylchfan

**Gwahodd Swyddog traffig yn ol dechrau'r flwyddyn**

**Sbwriel Ysbyty Gwynedd**

Y clerc heb dderbyn unrhyw ymateb o'r Ysbyty a felly awgrymwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Ffion Johnston Prifweithredwr Y G

Ychwanegodd Cyng L A James tra yn datgan buddiant fel un sy'n gyflogedig i'r Gwasanaeth Iechyd ei bod yn ymwybodol fod rhaid i ysbytai gydymffurfio a deddfau ail-gylchu o 2025-26 ymlaen a tybed os byddai lle i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth hefo'r safle

**Cytunwyd i drafod hyn ymhellach fel prosiect at 2025-26 pan fyddai'r ddeddf yn dod i rym**

**Mabwysiadu Polisi Iaith**

Cyn symud i fabwysiadu y Polisi iaith trafodwyd adroddiad 'Perthyn' oedd wedi cael ei rhannu yn electonig gan y Clerc yn dilyn derbyn yr ohebiaeth o Gyngor Cymuned Llanystundwy. Gohebiaeth oedd yn gofyn i Gynghorau Cymuned gymeradwyo adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymreig ag yn gofyn i Llywodraeth Cymru a Cyngor Gwynedd ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol i atgyfnerthu cymunedau Cymraeg. Tra'n derbyn yr egwyddorion cytunwyd i ohirio penderfyniad tan y cyfarfod nesaf

**Cyflwynwyd Polisi Iaith Cyngor Cymuned Pentir ar gyfer ei fabwysiadu** Cynnigodd Cyng D Jones-Morris ein bod yn ei dderbyn a cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng J Griffiths

Pleidleisiodd 10 o blaid a 1 yn erbyn

**Cafodd y Polisi ei fabwysiadu**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**

   i. **Mantolen ariannol / Financial report**

'Roedd mantolen ariannol o fewn y pecyn ddosbarthwyd yn dangos £36,545.12c yn y cyfrif cyfredol a £41,,383.14c yn y cyfrif cadw

   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 25/07/20249**

Nodwyd fod pob polisi sydd eisioes wedi eu mabwysiadu bellach yn ymddangos ar ein gwefan yn ddwyieithog
Cwmni Lightsource wedi derbyn caniatad cynllunio ag yn awyddus i wybod am brosiectau fyddai yn addas i'w ariannu drwy eu cyfraniad ariannol cymunedol. Clerc wedi cysylltu i weld os byddai yr arian ar gael rwan yntau pan fyddai'r prosiect yn weithredol – dim ymateb wedi ei dderbyn eto
Graddfeydd Cenedlaethol Cyflog y Clerc wedi codi – Clerc i gysylltu a'n cyfrifwyr sy'n darparu y gyflogres

**Cynllunio / Planning**

**Dim cais i'w ystyried**

**8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Gohebiaeth Perthyn a'i Polisi Iaith / Mabwysiadu Polisi Iaith**

Cyn symud i fabwysiadu y Polisi iaith trafodwyd adroddiad 'Perthyn' oedd wedi cael ei rhannu yn electonig gan y Clerc yn dilyn derbyn yr ohebiaeth o Gyngor Cymuned Llanystundwy. Gohebiaeth oedd yn gofyn i Gynghorau Cymuned gymeradwyo adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymreig ag yn gofyn i Llywodraeth Cymru a Cyngor Gwynedd ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol i atgyfnerthu cymunedau Cymraeg. Tra'n derbyn yr egwyddorion cytunwyd i ohirio penderfyniad tan y cyfarfod nesaf

**Cyflwynwyd Polisi Iaith Cyngor Cymuned Pentir ar gyfer ei fabwysiadu** Cynnigodd Cyng D Jones-Morris ein bod yn ei dderbyn a cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng J Griffiths
Pleidleisiodd 10 o blaid a 1 yn erbyn
**Cafodd y Polisi ei fabwysiadu**

- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**
  - **Adroddiad o gyfarfod Blynyddol**

Adroddodd Cyng L A James -Ysgrifenyddes y Pwyllgor Rheoli - iddi fod yn teimlo yn anghyfforddus iawn fod Cyngor Cymuned Pentir wedi cael ei gyhuddo o fod wedi gweithredu yn anghyfreithlon a bod ein Cyfreithiwr wedi ei enwi ag yn wir ei fychanu yn ystod trafodaeth am sefyllfa y maes parcio Diolchodd am y gefnogaeth oedd wedi ei dderbyn gan aelodau eraill o'r Cyngor oedd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli
Nid oedd gan y Cyng A Joyce – sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor a'r Pwyggor Rheoli ddim i'w ddatgan

  - **Cyfarfod Adran Addysg/Eiddo Cadeirydd/Clerc**

Trefnwyd cyfarfod rhwng y Cadeirydd y Clerc a Swyddogion o'r Adran Addysg ag Adran Eiddo Cyngor Gwynedd yn dilyn arwyddo y drwydded dros dro sydd bellach yn weithredol dros faes parcio ac er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa gan y ddwy ochr a thrafod Pentelerau drafft prydles ar gyfer y Ganolfan Newydd
Cafwyd newyddion calonnogol iawn hefyd ynglyn a'r anghydfod sydd wedi bod rhwng yr Eglwys a Chyngor Gwynedd parthed y Ganolfan Newydd gyda'r gobaith y bydd cyfnewid contarctau ynglyn a'r trosglwyddo tir yn digwydd yn fuan yn y flwyddyn newydd
Bydd angen rhannu y pentelerau drafft yn amlwg gyda'n cyfreithwyr a **byddwn yn derbyn cyfarwyddyd wedyn drwy'r cyfreithwyr**

- **Mabwysiadu Polisiau Adolygu a mabwysiadu Polisi Iaith Cyngor Pentir**
  **Gweler uchod dan** Gohebiaeth Perthyn a'i Polisi Iaith / Mabwysiadu Polisi Iaith

- **Capel y Fynwent** **Esiamplau deunydd/patrwm**

Rhanwyd esiamplau o Amtico lliw derw mewn dau faint Cytuno ar y maint mwyaf a rhoi y caniatad i'r Cwmni symud ymlaen i'w osod

Cyngor Cymuned Pentir

**9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis Goleuadau nadolig**
Yn dilyn trafferthion gyda maint yr offer dderbynnwyd gyntaf oedd rhy fawr eu maint i'r lleoliad/polion derbynwyd ail archeb fydd yn addas ag yn barod i'w gosod Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei ymroddiad hefo'r prosiect yma oedd yn cael ei wneud am y tro cyntaf
Byddai dwy goeden nadolig yn cael eu gosod gan y Cyngor eleni a gweithwyr Cyngor Gwynedd fyddai yn gwneud y gwaith ar ein rhan yn ogystal a nol y coed o Llanrug i'w gosod
Gwaith tyllu Pentir yn iawn o llynedd ond angen tyllu yn Treborth
**Cyng L A James Cylchfan Parc Menai**
Adroddodd fod yna beth dryswch ar y gylchfan dan sylw gan fod cerbydau yn dod o gyfeiriad Caernarfon/Allt Faenol yn ansicr os yw ceir sydd ar y Gylchfan yn mynd oddiarni am Gaernarfon yntau yn parhau arni i fynd i Parc Menai
**Clerc i gysylltu a Cefnffyrdd**
**Cyng A Joyce Cofrestr Risg**
Esboniodd y Cadeirydd mae dogfen fyw yw cofrestr risg sy'n cael ei addasu fel bo'r angen h.y.os adnabyddir risg o'r newydd (er engraifft Goleuadau Nadolig eleni) neu os bydd risg wedi ei diddymu.
Gofynnwyd i'r Cyng Joyce os byddai yn craffu yr cyfieithiadau Saesneg gan fod ambell air efallai heb ei gyfieithu yn briodol
Cytunodd i wneud hynny cyn mynd ymlaen wedyn i ddarllen datganiad oedd yn amlwg wedi ei ddarparu mlaen llaw am ei anfodlonrwydd ynglyn a dogfennaetha y Cyngor
**Cyng B. Jones Parcio ardal Penrhos**
Codwyd yr 'hen' fater yma unwaith yn rhagor gan fod bellach nid yn unig aleodau staff yn parcio ond bod hefyd gleifion yn chwilio am lefydd parcio. Trafodwyd os byddai posib i'r Cyngor ariannu i ddosbarthu arwyddion addas ar gyfer trigolion gan nad oedd posib cael datrusiad o gyfeiriad Cyngor Gwynedd. Ymateb ganddynt oedd fod gan bawb yr hawl i barcio ar ffyrdd cyhoeddus cyn bellad nag oedda nhw'n achosi perygl i ddefnyddwyr eraill
Ni fyddai arwyddion o'r fath yn gyfreithiol a felly gwastraff amser ag arian fyddai cynllun o'r fath
Clerc i holi a gwahodd yr aelod Seneddol, Claire Hughes i drafod. Tra ein bod yn ymwybodol bod yr aelod yn Llundain o Ddydd Llun i Ddydd Iau efallai byddai rhywun yn ei chynrychioli yn gallu mynychu

Ni fyddai cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn ystod Mis Rhagfyr felly byddai'r cyfarfod nesaf 9fed o Ionawr

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15